

Dathliad Chwirydd Aberduar yn 70 oed

Daeth Cymdeithas Chwirydd Aberduar, ac aelodau eraill yr eglwys, ynghyd i'r festri i ddathlu 70 o flynyddoedd ar y 5ed o Dachwedd 2014.

Cychwynwyd y Gymdeithas yn y flwyddyn 1944, ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Yr enw a roddwyd arni oedd 'Y Sewing Guild', ac roedd y gymdeithas yn cwrdd unwaith yr wythnos yn y gaeaf, yn gweu a gwnïo erbyn yr Arwerthiant Flynyddol, (neu'r *Sale of Work* fel y gelwid hi y pryd hynny) a'r elw yn mynd at y Genhadaeth.

Cynhelir yr Arwerthiant o hyd ym mis Mawrth, fel yr oedd yn y dechrau. Nawr mae cyfran o'r elw yn cael ei roi i'r Cyngor Ysgolion Sul, ac i'r Genhadaeth, ond mae'r mwyafrif yn cael ei roi i anghenion y capel.

Dechreuodd noson y dathlu yn hamddenol wrth inni graffu ar yr arddangosfeydd o ffotograffau o'r blynyddoedd, a phawb yn cymdeithasu gyda'i gilydd. Croesawodd ein gweinidog, y Parchg Jill Tomos, bawb a ddaeth ynghyd, a chyn troi at y bwrdd swper, cawsom air o weddi. Braff oedd cael hel atgofion gydag ein gwesteion am y noson, sef y Parchg Wynn Vittle, y Parchg Olaf a Mrs Helen Davies, a Mrs Anne Evans yng nghwmni ei mab y Parchg Owain Llŷr.

Gwnaethpwyd cacen i nodi'r achlysur pwysig, ac roedd gwahoddiad wedi ei roi i Mrs Eluned Lewis Tanlan ac Mrs May Griffiths (Penrhiw gynt), sef y ddau aelod hynaf o'r chwirydd, i'w thorri. Yn anffodus, methodd May â bod gyda ni am nad oedd hi'n hwylus.

Ar ôl torri'r gacen, bu Mrs Hannilia Court, ysgrifennydd y Chwirydd, yn darllen penillion o waith Mrs Brenda Jones, Cwrtnewydd.

Diolch i Mrs Mary Jenkins, Brynrhosyn, a Mrs Margaret Jones, Llysawel, am drefnu bwyd rhagorol, i Mrs Brenda Jones am baratoi'r penillion, i Mrs Vicky Davies, Pistyllgwyn, a wnaeth y gacen a'i rhoi yn rhodd gan y teulu, a hefyd i Dewi Davies Glynteg am baratoi'r ffotograffau.

Cafwyd noson hwylus a hapus, i'w chofio am byth.

(Diolch i Hannilia am yr adroddiad)

Cofiwch, chwirydd Aberduar am ein cyfarfod ar y cyd â chwirydd Eglwys San Pedr, Llanybydder, ac eglwys Rhydybont ar yr 8fed o Ragfyr am 2.00 y prynhawn.

Cofiwch !! fod llyfrau'r capeli yn cau ar ddiwedd y flwyddyn, a helpwn ein trysoryddion diwyd drwy fod yn brydlon â'n cyfraniadau ariannol am 2014.

www.


bedyddwyr-gogleddteifi.org
@BedyddGogTeifi

facebook - Aberduar, Bethel
Silian, Brynhafod a Noddfa

Cylch Darllen

Cynhelir y Cylch Darllen am 10.30 yn festri Noddfa. Croeso i rai newydd ymuno gyda ni am baned a darllen, ac yna, sgwrs, am argraffiadau, ac ystyr, rhan o'r Beibl. Y thema eleni: Credaf...

10 Rhagfyr: Eseia 43 Yn Dad
14 Ionawr: Yn Fab



Deufis

Eglwys Bedyddwyr Gogledd Teifi

Rhagfyr 2014 a Ionawr 2015

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus. Mae'r amseroedd yn gywir wrth fod y Deufis yn dod allan, ond os ydych am gael y manylion diweddaraf, beth am ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar (Twitter)?

7 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

14 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Delyth Morgans Phillips
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Oedfa Nadolig y plant a'r bobl ifainc

21 Rhagfyr

Bethel	10.15 y bore	Oedfa Nadolig yr aelodau
Brynhafod	3.30 y prynhawn	Oedfa Nadolig yr aelodau a'u ffrindiau
Aberduar	6.00 yr hwyr	Oedfa Nadolig yr ifainc

28 Rhagfyr

Bethel	10.15 y bore	Oedfa unedig i Noddfa, Caersalem, a Bethel o dan ofal Mrs Delyth Morgans Phillips
--------	--------------	---

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

4 Ionawr

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

11 Ionawr

Aberduar	10.00 y bore	Mr Arwyn Pierce
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

18 Ionawr

Noddfa	10.00 y bore	Oedfa unedig i Noddfa, Caersalem a Bethel dan ofal y Parchg Stephen Morgan Mrs Beth Davies
Aberduar	10.00 y bore	

25 Ionawr

Aberduar	10.00 y bore	Mr Silyn Thomas
Bethel	10.15 y bore	Oedfa unedig i Noddfa, Caersalem a Bethel dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan
Brynhafod	2.00 y prynhawn	Oedfa unedig i Seion a Brynhafod o dan ofal Mr Silyn Thomas

Rhaghysbys 1 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

Astudiaeth Feiblaidd

Cynhelir yr olaf o'r gyfres eleni ar nos Fercher 10 Rhagfyr am 7 yr hwyr ar aelwyd y Gilfach, a'r maes fydd Colosiaid, pennod 4. Diolch i'r Parchg Athro Densil Morgan am arwain yr asudiaethau ac i Ann a Densil am ein croesawu i'w cartref. Croeso i bawb.

Diolch i bob un sy'n trefnu dyblygu a dosbarthu'r Deufis.

Nadolig llawen
i bawb o ddarllenwyr y Deufis,
a blwyddyn fendithiol yn 2015



Anfonwn ein cyfarchion arbennig i'n brodyr a'n chwirydd sy' mewn gofid ar yr adeg yma.

Bydd oedfa bore Nadolig yn Aberduar am 9, ac yn Noddfa am 10 - cyfle inni gyd-addoli ar y diwrnod arbennig yma, ac edrycha i ymlaen at eich gweld.

Diolch i amazingcatechists.com am y llun!